# Cyfanswm cost flynyddol Swyddfa Etholaethol

26 Mai 2011

Annwyl,

**Cais am Wybodaeth.**

Ysgrifennaf i ymateb i'ch cais pellach am wybodaeth a oedd yn gofyn am;

*Gyfanswm cost Swyddfa Etholaethol Mrs Butler AC (gan gynnwys ei chyflog ei hun, cyflogau eraill, costau rhedeg y swyddfa a theithio). Mae arnaf angen gwybodaeth hefyd am ei chyflog fel AC ac fel Dirprwy Lywydd.*

Mae cyfanswm costau'r cyflogau staff ar gyfer Rosemary Butler fel Aelod o'r Cynulliad i'w weld yn y tabl isod.

Costau Staff Cymorth

| | |
|---|---|
| **2008-2009** | **£85,015** |
| **2009-2010** | **£88,391** |
| **2010-2011** | **£81,008** |

Costau Cyflog AC (gan gynnwys yswiriant gwladol a phensiwn)

| | |
|---|---|
| **2007-08** | **£60,437** |
| **2008-09** | **£69,346** |
| **2009-10** | **£71,721** |
| **2010-11** | **£72,793** |

Mae gwybodaeth am dreuliau Aelodau'r Cynulliad yn cael ei chyhoeddi ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae ar gael i'r cyhoedd i gyd ei gweld yn rhad ac am ddim. Gallwch weld yr holl hawliadau, am bob blwyddyn ariannol, ar gyfer pob Aelod o'r Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys costau swyddfa a theithio. Gallwch weld y wybodaeth drwy glicio ar y linc a ganlyn http://www.cynulliadcymru.org/memhome/mem-expenses-2.htm. Ar y tudalen hwn hefyd mae dwy ddogfen sy'n rhestru'r un wybodaeth am y blynyddoedd ariannol 2006/07 a 2007/08.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn
http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi, neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae manylion am egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad wedi eu gosod allan yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn
http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm
Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Yn gywir

Alison Rutherford
Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru